Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy



Cymdeithas Tai Sir Fynwy

# Adolygu'r Flwyddyn
2021/22



# Cynnwys


3 Croeso a Chyflwyniad
4 Amdanon ni
- 5 Ein gweledigaeth
- 5 Ein gwerthoedd

6 Ein cartrefi
8 Landlord Gwych
10 Busnes Gwych
12 Cartrefi Gwych
- 15 Eiddo
- 15 Bodlonrwydd

18 Gwasanaethau Gwych
- 21 Rhoi rhywbeth yn ôl
- 22 Yn ein cymunedau
- 22 Cadw mewn cysylltiad
- 22 Gweithgareddau
- 23 Cefnogi grwpiau cymunedol lleol
- 23 Eich adborth
- 23 Cysylltu â ni
- 23 Trin Cwynion
- 24 Cadw pobl yn ddiogel
- 25 Gweithio gyda chi
- 25 Cymerwch ran a rhowch eich barn

26 Pobl Wych
- 26 Taclo'r 'Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau'

28 Mynd yn Wyrdd
30 Rheolaeth
- 30 Bwrdd Ein Grŵp
- 31 Aelodau PLIC
- 31 Uwch Dîm Rheoli

32 Cymunedau Cynhwysol
34 Arian
- 35 Bodlonrwydd Tenantiaid

# Croeso a **Chyflwyniad**

Helo! Mae hi wedi bod yn flwyddyn heriol arall yn rheoli'r busnes yn ystod pandemig, ond, i fod yn gadarnhaol, mae cryn dipyn i'w ddathlu o hyd yn CTSF.

Rydym wedi parhau i weithio'n galed i gyflenwi gwasanaethau a chefnogaeth mawr eu hangen yn ein cymunedau gan herio materion cymdeithasol, fel dyled a thlodi, unigrwydd, mynediad at waith a hyfforddiant, camdriniaeth ddomestig a digartrefedd. Yn wir, rydym newydd greu grŵp 'Gwneud Tlodi'n Flaenoriaeth' i fynd â hyn hyd yn oed yn bellach.

Rydym wedi parhau â'n hymrwymiad i adeiladu 53 o gartrefi fforddiadwy ac yn bwriadu creu cyflenwad o 200 neu fwy yn y 4 mlynedd nesaf, er gwaethaf prinder deunyddiau a llafur.

Mae atgyweirio a chynnal a chadw ein cartrefi yn rhan bwysig o'r hyn yr ydym yn gwneud ac rydym yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiad, gan sicrhau bod safonau ardderchog yn cael eu cynnal.

Dros y 12 mis diwethaf, mae ein bwrdd newydd wedi setlo'n dda ac yn edrych ymlaen at ymadwaith â'r Pwyllgor Llais Cymunedol (PLlC) newydd. Mae'r PLlC yn cynnwys 8 o unigolion angerddol, talentog (mae 5 yn denantiaid), yn awyddus i weithio gyda CTSF i'n helpu i lywio at gyflenwad gwasanaeth rhagorol.

Mae ymgysylltu cwsmeriaid gyda phenderfyniadau a gwella'r gwasanaeth yn hanfodol i ni, ac rydym yn edrych ymlaen at edrych ar ganlyniadau'r arolwg tenantiaid diweddar gyda chi, gan ystyried gyda chi'r gwaith sydd o'r gwerth mwyaf a'ch barn ar beth sydd bwysicaf i chi - felly diolch yn fawr i chi am gymryd rhan!

Trwy gydol y cyfnod clo a thu hwnt, mae ein cwsmeriaid a chydweithwyr wedi ymateb yn wych. Rydych wedi mynd yr ail filltir a, thrwy wneud hynny, rydych wedi dangos ysbryd cymunedol a thosturi anferth tuag at eich cymdogion, felly diolch unwaith eto!

Er gwaethaf heriau anhygoel y ddwy flynedd diwethaf, mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac rydym yn ymrwymedig at fuddsoddi yn ein pobl, ein cartrefi a'n cymunedau.


Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau adolygiad blynyddol eleni a byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych.



John Keegan
Prif Weithredwr



Andy Jones
Cadeirydd Grŵp CTSF




Datblygiad tai yn Y Dyfawden, Y Fenni

Rydym yn rheoli
**3,820**
o gartrefi

Ers 2008,
rydym wedi adeiladu
**307**
Cartrefi cymdeithasol ar rent

Prynhawn o hwyl yng Nghil-y-coed



Gan gynnwys prentisiaid mae gennym
**256**
o staff

Rydym yn rheoli
**239**
o gartrefi ar brydles

# Amdanom **Ni**

Tai Sir Fynwy ydym ni, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn Sir Fynwy yn bennaf.

Gan ein bod ni'n sefydliad elusennol, mae unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn cartrefi newydd a phresennol ac yn cael ei ddefnyddio i helpu i fodloni ein hamcanion cymdeithasol a chymunedol.

Mae rhoi'r gwasanaethau gorau posibl i'n cwsmeriaid yn golygu bod angen busnes ariannol gryf, cydnerth a threfnus i gefnogi'n hymdrechion. Rydym yn gosod y bar yn uchel, gan wella'n barhaus yr hyn a wnawn a chysylltu'r gwaith yma â safonau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r adolygiad yma'n amlinellu sut yr ydym yn bodloni'r safonau yma'n gyson, yr hyn yr ydym wedi cyflawni a rhai o'n cynlluniau cyffrous ar gyfer y dyfodol.

## Ein gweledigaeth

Mae CTSF yn darparu **tai a gwasanaethau o ansawdd uchel** sy'n cyrraedd disgwyliadau rhanddeiliaid. Pob dydd, rydym yn ceisio trawsnewid bywydau trwy alluogi cymunedau i wireddu eu huchelgeisiau. Rydym wedi creu amgylchedd ble gall pobl gael ansawdd bywyd da, mewn mannau ble maen nhw'n dyheu byw a gweithio.




## Ein gwerthoedd



### Agored

Byddwn yn gweithredu'n onest a bydd ein penderfyniadau yn gynhwysol ac yn dryloyw.



### Hyblyg

Byddwn yn arloesol ac yn rhagweithiol ac yn edrych ar newid fel cyfle.



### Teg

Rydym yn ymrwymo i roi gwasanaethau mewn ffordd deg a gan sicrhau cydraddoldeb cyfle i bawb.



### Cyflawni

Byddwn yn gosod ac yn cyrraedd nodau a thargedau uchelgeisiol.

Ewch i **monmouthshirehousing.co.uk/ about-us** am fwy o wybodaeth am ein cynllun 5 mlynedd.



Rockfield Avenue, Trefynwy



Gerddi Davies Court, Y Fenni

Llys Mounton, Drenewydd Gelli-farch



# Ein **Cartrefi**

Cymerwch gipolwg ar y map isod o'r **4,064** o gartrefi yr ydym yn rheoli (gan gynnwys cartrefi dan brydles).





Hwyl i'r teulu yng Nghlwb Rygbi Cil-y-coed



Lynda Randall, Enillydd cystadleuaeth staff y GIG

Cefnogi'r Gymuned



# **Landlord** Gwych

Effeithiodd y pandemig byd-eang ar fywydau pawb gan ddod â heriau sylweddol. Serch hynny roedd lles a diogelwch cwsmeriaid a staff yn dal i fod yn flaenoriaeth.

Trwy gyfuniad o berthnasau ardderchog gyda'n contractwyr a phartneriaid, staff ymroddedig ac amynedd a chefnogaeth ein tenantiaid, rydym wedi gallu goresgyn y rhan fwyaf o heriau a rhwystrau, gan gadw pawb yn ddiogel a sicrhau cyflenwad ein gwasanaethau o ansawdd uchel.

Ein bwriad yw bod yn gynhwysol ym mhob agwedd o gyflenwi'n gwasanaeth, ac fel cyflogwr, byddwn bob amser yn ceisio sicrhau ein bod yn trin pob unigolyn â pharch, ac yn ôl eu hanghenion.

Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd targedau'r llywodraeth i gyrraedd allyriadau carbon sero net ac mae hwn yn un o'r targedau allweddol yn ein cynllun strategol.

Rydym hefyd yn gweithio'n galed ar hyn o bryd i wella'n cynnig digidol i'n cwsmeriaid ac rydym yn brysur yn gweithio ar borthol tenantiaid ac yn gobeithio ei lansio yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Peidiwch ag anghofio ein bod hefyd yn cynnig cyswllt ar-lein trwy ein gwefan, Livechat ac rydym yn weithgar ar bob llwyfan cyfryngau cymdeithasol, felly beth am ein dilyn ni? Ein dull yw digidol trwy ddyluniad ond heb adael neb ar ôl.

**Mae 2022/23 yn addo bod yn flwyddyn heriol arall i CTSF.**
Look out for the
Anelu at **RAGORIAETH**
trwy'r ddogfen yma i ddysgu mwy am ein cynlluniau at y dyfodol.

## Anelu at **RAGORIAETH...**

Wrth i ni adael y pandemig, mae ein gwasanaethau'n dychwelyd i'r arferol, math newydd o 'normal'. Gweithio'n fwy effeithlon yw'r ffordd y mae CTSF yn gwella cyflenwad ein gwasanaethau sy'n golygu gwasanaeth gwell fyth i denantiaid!









Fflatiau yn St David's Road, Y Fenni




Un o staff Capsel (ein his-gwmni)

## Beth mae'r **Rheolydd Tai** yn disgwyl gennym...

- Ein bod ni'n gwarchod buddiannau trethdalwyr, enw da'r sector ac yn diogelu asedau cymdeithasol
- Bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn, ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith a phob gofyniad rheoleiddiol a statudol a bod yr uwch reolwyr a'r Bwrdd yn eglur ynghylch eu rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd
- Ein bod yn gadarn yn ein penderfyniadau wrth chwilio am fusnes newydd a chyfleoedd i ddatblygu, a'n bod yn eglur sut mae hyn yn effeithio ar fusnes yn y dyfodol
- Bod gennym gynlluniau ariannol cryf a digon o arian i gefnogi'r busnes ochr yn ochr â systemau a rheolaeth effeithiol mewn grym i fonitro perfformiad a chydymffurfiad â chyfamodau



# **Busnes** Gwych

Mae'r byd o'n cwmpas yn newid, felly mae'n rhaid i ni fod yn fwy effeithlon i barhau i gyflenwi cartrefi newydd a gwasanaethau.

Ein ffocws craidd yw parhau'n ariannol gryf wrth i ni adeiladu ar ein cydnerthedd a thwf. Gan ein bod ni'n sefydliad nid-er-elw, rydym yn buddsoddi unrhyw arian dros ben yn ein cartrefi a gwasanaethau.

## Cipolwg o'r **hyn yr ydym wedi cyflawni...**

Cadw ôl-ddyledion Credyd Cynhwysol ar **4.43%.**

Cynyddu ein Trosiant Blynyddol.

Mae ein Harchwilwyr wedi rhoi **'sicrwydd sylweddol'** am y ffordd yr ydym yn gwneud busnes (ein trefniadau.

Cadw ôl-ddyledion rhent ar **1.97%.**

# Anelu at RAGORIAETH...



### Bydd ffocws 2022/23 ar:

**Chwilio am gyfleoedd i baru gyda sefydliadau i greu buddsoddiad sy'n cryfhau'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu trwy...**

- Adnabod cyfleoedd am ddatblygiad a phartneriaethau eraill, gan gynnwys y tu allan i Sir Fynwy
- Cyflenwi Strategaeth Ymgysylltiad Rhanddeiliaid CTSF, gan nodi partneriaethau strategol wedi eu seilio ar ymddiriedaeth a gwerthoedd a rennir
- Arallgyfeirio a thyfu'r busnes
- Nodi opsiynau gwerthiant y tu allan i Sir Fynwy
- Datblygu cynllun busnes 5 mlynedd Capsel a sicrhau arian dros ben cynaliadwy ar gyfer buddsoddiad y dyfodol

**Cynnal dichonoldeb ariannol a hyder arianwyr a phartneriaid...**

- Cyflwyno strategaeth caffael newydd a chreu arbedion effeithlonrwydd pellach
- Cadw ôl-ddyledion rhent ar 3.0% neu'n is
- Cadw ôl-ddyledion Credyd Cynhwysol ar 6% neu'n is
- Adolygu cynnig pensiwn CTSF
- Cael ymrwymiad cytundebol ar gyfer cyfraniadau Gwerth Cymdeithasol o gytundebau adeiladwaith a datblygiad
- Cael strwythurau llywodraethiant cydnerth mewn lle i sicrhau ein bod ni'n bodloni Safonau Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru



Fflatiau yn St David's Road, Y Fenni

Cyn



Ar ôl



Gwaith mewn gerddi yn Raglan Way, Cas-gwent

Ar y safle yn y Fenni



# **Cartrefi** Gwych

Yn CTSF rydym yn credu y dylai eich cartref fod yn fforddiadwy ac yn ddiogel, lle yr ydych yn falch o'i alw'n gartref a ble mae pob dim yn gweithio'n effeithiol.

Ni chafodd ein gwasanaeth atgyweiriadau brys na'n rhaglen gwasanaeth gwresogi eu heffeithio fawr gan y pandemig diolch i waith caled ein Tîm Gwasanaethau Adeiladau. Cafodd unrhyw waith a gronnwyd yn ystod y cyfnodau gwaethaf ei glirio erbyn yr Haf.

Effeithiodd cyfuniad o fynediad at lafur, deunyddiau, materion amgylcheddol a chyfyngiadau'r pandemig ar gyflenwad ein rhaglen ddatblygu.

Fe wnaethom ni gwblhau ein rhaglen gwelliannau allanol, gan wella mannau allanol ein cartrefi i fod yn lleoedd ymarferol, mwy deniadol i'n tenantiaid fyw.

Fe gwblhaon ni wiriadau diogelwch hanfodol a chyflwyno rhaglen gwella adolygiadau drysau tân wydn ar gyfer 2022.

## Cipolwg o'r **hyn yr ydym wedi cyflawni...**

Mae **pob gwasaaneth** yn gwbl weithredol nawr.

Cynnydd o **57** yn nifer y cartrefi y bu i ni eu hadeiladu eleni.

Prynwyd **5 homes** for ar gyfer rhentu.

Bodlonrwydd cwsmeriaid yn **90%+.**

Gosodwyd **larymau argyfwng 24 awr** digidol newydd yn ein cynlluniau gwarchod.

Cynnal **'safon aur'** o ran cartrefi gwag yn aros am denantiaethau newydd, er gwaethaf.




Gwaith adeiladu Pembroke Road, Chepstow




Cyn

Ar ôl

Gwelliannau yn St Mary's Place, Porthsgiwed

Byngalos Oak Grove, Trefynwy



## Beth mae'r **Rheolydd Tai** yn disgwyl gennym...

- Ein bod yn cadw cofnodion cywir a chyfredol o'n dyledion, asedau a chyflwr. Ein bod ni'n defnyddio'r wybodaeth yma i gyflenwi rhaglenni atgyweirio ac adnewyddu a gwneud penderfyniadau gwybodus ar fuddsoddiad
- Bod pob cartref a ariennir yn gyhoeddus yn cyrraedd safonau gofynnol o ran dyluniad ac ansawdd a'u bod yn cael eu cynnal at y safonau hynny
- Ein bod yn bodloni pob gofyniad statudol ar gyfer iechyd a diogelwch preswylwyr y cartref

## Eiddo

Mae **99.97%*** o'n cartrefi wedi cael gwiriad diogelwch nwy.
*Un yn hwyr ar 31ain Mawrth

**4,558** o Atgyweiriadau Brys wedi eu cwblhau.

**99** o gartrefi wedi elwa o'r rhaglen waith allanol.

Gosodwyd **175** o doeau newydd.

**100%** o denantiaid yn fodlon â sut cafodd gwaith atgyweirio ei drin.

**100%** o Asesiadau Risg Clefyd Lleng-filwyr wedi eu cwblhau.

Cwblhawyd **100%** o Asesiadau Risg Tân.

Gwasanaethau lifftiau trigolion – cydymffurfio **100%.**

Gwasanaethu lifftiau cadeiriau - **93.14%.**

**27** ystafell ymolchi.
**88** o geginau.
**160** ffenestri a drysau.
**98** bwyler wedi'u gosod.

# Anelu at RAGORIAETH...



Ein ffocws yw adeiladu a chynnal ein cartrefi at safonau uchel o ddiogelwch ac ansawdd.

### Cynlluniau'r Dyfodol...

**Adeiladu cartrefi ble gall pobl obeithio byw a gweithio trwy...**

- Gynyddu cyflenwad cartrefi sydd ar gael o 75 o gartrefi trwy ddatblygiad newydd, adfywio a phryniant dros y flwyddyn sydd i ddod
- Datblygu cyflenwad o 200 o gartrefi ar gyfer y 4 mlynedd nesaf
- Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd a phresennol ac yn gosod ein llwybr tuag at garbon sero net ...
- Datblygu strategaeth ariannu i gyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru

## Bodlonrwydd

**87.5%** o denantiaid yn fodlon gydag ansawdd eu cartref.

**92.1%** yn cadarnhau bod CTSF yn darparu cartref diogel.

**89.8%** yn fodlon gyda'r gwasanaethau atgyweiriadau a.

**87.5%** ohonoch yn fodlon gyda'ch cymdogaethau.



Gwaith o ansawdd yn Llandeilo Gresynni



Cyn

Ar ôl



Gwelliannau yn St Tecla Road, Bulwark

# Cipolwg ar ein cartrefi a chymdogaethau anhygoel...

Cartrefi newydd yn y Dyfawden, y Fenni






Clôs Anghidi, Tyndyrn

Tacluso Cwrt Severn, Cil-y-coed



Cyn

Ar ôl



Golygfeydd hardd yn Llangynidr





Rhai o'n Tîm Cynhwysiant



Cynnig cyngor yn y gymuned

Ein Tîm **iConnect** yn y Fenni





## Beth mae'r **Rheolydd Tai** yn disgwyl gennym...

- Gwrando ar ein tenantiaid, a'u cynnwys mewn penderfyniadau a llunio gwasanaethau
- Ein bod yn gwella'n barhaus wrth gyrraedd deilliannau cadarnhaol, gwneud y defnydd gorau o'r tai sydd ar gael ac ymateb yn briodol i heriau newydd
- Bod y Bwrdd yn sicrhau perfformiad presennol y gwasanaeth, gan gynnwys bodlonrwydd tenantiaid ac yn gyrru gwelliant parhaus

# **Gwasanaethau** Gwych

Fel sefydliad elusennol, mae ein rôl yn mynd y tu hwnt i ddarparu cartrefi a gwasanaethau tai.

Mae ein cyfraniad parhaus i'n cymunedau mor bwysig i ni ag yw i chi. Mae'r buddsoddiad yma'n helpu tenantiaid i fyw bywydau annibynnol, sicrhau gwaith a thrawsnewid adeiladwaith ein cymdogaethau.

## Cipolwg o'r **hyn yr ydym wedi cyflawni...**

Mae ein Tîm Gwaith a Sgiliau ymroddedig wedi cefnogi **56** o denantiaid i mewn i .

**35** o leoliadau gwirfoddoli a gwaith wedi cychwyn.

Wedi cefnogi **5** o brentisiaid ar draws y busnes, o drydanwyr at swyddogion.

Mae ein harbenigwyr moneysaver wedi helpu **443** o y mwyaf o'u hincwm cyfanswm o **£582,280.31.**

Rhoddwyd **£800** at fanciau bwyd lleol ledled y sir.

Gosodwyd **244** o gartrefi a helpwyd **40** o deuluoedd i symud i gartrefi newydd trwy ein rhaglen Gyfnewid.

Roedd Swyddogion Tenantiaeth wrth law i helpu gydag ôl-ddyledion a phroblemau eraill gartref, fel rhan o'u cynnig cefnogaeth beunyddiol.

iConnect – The digital world at your fingertips

Penodwyd **dau Swyddog iConnect** a fydd yn helpu cymaint o bobl â phosibl i fynd at y rhyngrwyd yn ddiogel ac yn annibynnol. Bydd Tîm iConnect yn helpu i adeiladu hyder a gwella sgiliau digidol.

Penodi **dau Swyddog Byw yn y Gymuned** a fydd yn gweithio o fewn ein cynlluniau pobl hŷn. Bydd y swyddogion yn canolbwyntio ar les, ymgysylltu, iechyd a diogelwch a bod yn bwynt cyswllt cyntaf i'n tenantiaid. Byddant hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni ein 'Cynnig i Bobl Hŷn'.



Cwtch Angels, Y Fenni




Rhodd i Mind Sir Fynwy

Grŵp Rhianta Acorn gyda llyfrau newydd



## Rhoi rhywbeth yn ôl

Mae ein cynllun nawdd cymunedol gwerth **£7,000** wedi cefnogi nifer o grwpiau ar draws y sir:

- **Menywod Tref Cil-y-coed**
- **Clwb Rygbi Cil-y-coed o dan 8**
- **Cwtch Angels**
- **Llyfrgell Pethau'r Fenni**
- **Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy**
- **Tîm Tref Cil-y-Coed**
- **Grwpiau Rhiant Acorn**
- **Cymorth i Fenywod y Fenni**
- **Prosiectau Anabledd a Chynhwysiant a chylchoedd cymdeithasol yn y Bridges Centre**

## Rhoddon ni ran o £13k i 7 o Grwpiau Cymunedol trwy gynllun Pitch For Your Project.

**Cawsom ein synnu gan ymdrechion pob cais ac roeddem yn falch o allu cefnogi grwpiau cymunedol fel...**

BASE - Building Attachments, Security and Emotional Wellbeing: **£2,260.**

Love to Move: **£2,828.**

Youth Cabin Y Fenni: **£3,000.**

Clwb Pêl-rwyd Sir Fynwy: **£1,000.**

Clwb Pêl-droed Rhinos Y Fenni: **£1,000.**

Abergavenny Community Fridge: **£2,000.**

Pêl-droed Cerdded Cil-y-coed: **£1,000.**

**Mae CTSF wedi clustnodi £25,000 eleni i gefnogi tenantiaid mwy bregus sy'n byw â straen a thrawma, achosir gan gyni a thlodi.**



Yn brysur yn paentio cerrig

Y Syrcas yng Nghlwb Rygbi Cil-y-coed




## Yn ein cymunedau

Mae ein Tîm Ymgysylltiad wedi bod yn brysur yn ein cymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae tîm wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i drefnu digwyddiadau, hyfforddiant a gweithgareddau eraill ar draws y sir.

## Cadw mewn cysylltiad

Mae'r pandemig wedi bod yn amser anodd i bawb. Gyda chyfyngiadau mewn grym yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd yn bwysig bod gan ein tenantiaid ffordd o gadw mewn cysylltiad ag anwyliaid. Sefydlodd ein Tîm Ymgysylltiad lolfeydd rhithiol wythnosol yn ein cynlluniau gwarchodedig i helpu tenantiaid gysylltu â ffrindiau a pherthnasau ac roedd y rhain yn llwyddiant mawr.

Trefnodd ein Tîm Ymgysylltiad hefyd i bump o'n cynlluniau gwarchodedig gael tabledi digidol ar y bwrdd. Roedd y tabledi yma'n galluogi tenantiaid i gymryd rhan mewn grwpiau ar-lein, e-ddysgu a hyfforddiant.

## Gweithgareddau

Wrth i ni adael y cyfyngiadau clo, sefydlodd y tîm amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ein sefydliadau gwarchodedig. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau cerddoriaeth, adolygiadau llyfrau, dosbarthiadau celf, sesiynau sgiliau digidol, sesiynau dysgu i oedolion a sesiynau te, coffi a sgwrs.

Yn ogystal â threfnu digwyddiadau yn ein sefydliadau, trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau cymunedol eraill trwy gydol y flwyddyn i daclo iechyd a lles. Canolbwyntiodd gweithgareddau hefyd ar gadw ein cymunedau'n gydnerth, yn gysylltiedig, yn hapus ac yn iach. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys: sesiynau coginio, crosio, ffitrwydd awyr agored i'r teulu, ymwybyddiaeth ofalgar, picnics cymunedol a groto rhithiol Siôn Corn.

## Cefnogi grwpiau cymunedol lleol

Rydym wedi cefnogi nifer o grwpiau cymunedol trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf gyda phrosiectau amrywiol. Ymhlith y sefydliadau yr ydym wedi cefnogi mae: Cegin Bwyd Brynbuga, Cwtch Angels, Growing Space, Wye Valley Gym, Cyfeillion CTSF, Cyfeillion Bailey Park, grŵp Together Works a grŵp Sustainable Me, Sustainable You.

Yn ogystal â chefnogi grwpiau cymunedol gyda phrosiectau, rydym hefyd wedi helpu i sefydlu oergelloedd cymunedol yn y Fenni, Cil-y-Coed a Brynbuga. Maen nhw'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr lleol.

## Eich adborth

Mae CTSF yn casglu'ch barn trwy arolygon, cwynion a sgyrsiau ac rydym yn dweud am yr hyn yr ydym yn gwneud gyda'r wybodaeth yma'n rheolaidd trwy ein gwefan ac yn y cyfryngau cymdeithasol.

**Daeth ein harolwg mwyaf (bodlonrwydd) tenantiaid i ben yn Chwefror gyda'r ymateb mwyaf hyd yn hyn...**

**90.7%** yn fodlon gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan CTSF.

**77.2%** yn dweud ein bod yn gwrando ar eich barn ac yn.

**69.6%** yn teimlo bod cyfle i gymryd mewn penderfyniadau a sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli.

**87.3%** yn ymddiried yn CTSF.

## Cysylltu â ni

**98.4%** o alwadau'n cael eu hateb / cyfartaledd o 25 eiliad i ateb.

**1,401** Sgwrs Fyw a **10,372** e-bost yn cael eu trin gan ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid.

**85%** o'ch galwadau'n cael eu datrys gan y pwynt cyswllt cyntaf.

**99.36%** yn fodlon gyda gwasanaethau'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid.

## Trin Cwynion

**21** o gwynion ffurfiol wedi eu derbyn.

**100%** wedi eu hateb o fewn amser targed.

Ymateb o fewn **15.17** diwrnod ar gyfartaledd.

**85.71%** yn fodlon gyda sut cafodd y cwyn ei drin.

**44.44%** yn fodlon â chanlyniad y cwyn.

## Cadw’n cymunedau’n ddiogel

Mae ein Tîm Diogelwch Cymunedol ymroddedig yn gweithio’n agos gyda Chyngor Sir Fynwy, Heddlu Gwent, Sir Fynwy Mwy Diogel ac asiantaethau cefnogaeth eraill, gyda phob un yn rhannu nod yn gyffredin ... eich cadw’n ddiogel yn eich cartref.

Mae’n bwysig hefyd eich bod yn falch o’ch cymdogaeth ac rydym yn parhau i wella’r gwasanaeth yr ydym yn cynnig. Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno trefn ‘flaenoriaethu’ fel bod achosion yn cael eu hasesu yn ôl lefel difrifoldeb ar adeg yr adroddiad, a bod y swyddog cywir, gyda’r sgiliau cywir yn cael eu penodi. Mae hyn yn gwella amserau delio, gan ddatrys problemau mewn ffordd fwy cyflym ac effeithiol.

Rydym yn canolbwyntio hefyd ar gymorth rhagweithiol, gan ymyrryd a chyfeirio’r rheiny sydd mewn angen at asiantaethau cymorth, a chyfeiriwyd dros 69 o gleientiaid eleni.

**Ystadegau i’w nodi...**

Mae **42** o atgyfeiriadau cefnogaeth wedi bod.

Mae **23** o atgyfeiriadau cynghori wedi bod.

Mae gan **80** o gartrefi ddiogelwch well.

Cefnogwyd **60** o ddioddefwyr o gamdriniaeth ddomestig.

**94** o achosion yn gofyn am ymyrraeth ar gyfer Gwasanaeth Diogelwch Nwy.

**Ar gyfartaledd, mae’r tîm yn delio â 94 o achosion y mis, yn amrywio o ymddygiad troseddol a bygythiol at fandaliaeth...**

## ...Dyma’r 3 uchaf:




**1af**

**Niwsans Sŵn**



**2il**

**Camdriniaeth Ddomestig**



**3ydd**

**Camddefnydd cyffuriau a sylweddau**

## Gweithio gyda chi

Oeddech chi'n gwybod bod ein Pwyllgor Llais Cymunedol (PLIC) wedi cychwyn?

Mae'r grŵp brwd yma o 8 o bobl, sef 5 tenant, 1 lesddeiliaid a rhai cynrychiolwyr cymunedol, wrth galon penderfyniadau CTSF, gan sicrhau bod lleisiau ein tenantiaid yn cael eu clywed yn glir.

Mae amser prysur o'u blaen gyda phrosiectau cyffrous ar y gorwel gan gynnwys; edrych ar ansawdd cartrefi, sicrhau ein bod yn sefydliad cwbl gynhwysol trwy ystyried pob agwedd o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac, yn fwyaf pwysig, bodlonrwydd cwsmeriaid.

**Am wybodaeth am eich cynrychiolwyr** a gwybodaeth am yr hyn mae'r PLIC yn gwneud, gwnewch yn siŵr eich bod yn ein dilyn trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn edrych ar ein gwefan yn rheolaidd.

## Cymerwch ran a rhowch eich barn

Ewch at ein gwefan a dewiswch 'Get Involved' ble mae nifer o opsiynau gwahanol.

Rydym wrth ein bodd ag adborth! Ddim yn hapus â gwasanaeth neu am ddiolch i aelodau penodol o'r staff, cysylltwch.




# Anelu at RAGORIAETH...



### Cynlluniau'r Dyfodol...

**Mewn partneriaeth â'n tenantiaid, cynnig gwasanaethau sy'n gwella'r cynnig presennol a sicrhau gwerth am arian.**

- Cynnal bodlonrwydd tenantiaid ar lefel o 90%+
- Nodi cyfleoedd posibl ar gyfer ail-frandio CTSF
- Datblygu cynnig digidol i denantiaid, gan roi mynediad 24 awr i wasanaethau trwy gyflwyno Porthol Tenantiaid newydd
- Cwblhau cam 2 polisi gosod rhent lleol CTSF
- Chwilio am ffyrdd i leddfu tlodi ynni i denantiaid

**Trawsnewid bywydau a galluogi cymunedau**

- Gwella'n cynnig digidol i'n tenantiaid a chyflwyno hyfforddiant, mynediad at ddiwifr, adnoddau a chefnogaeth i'w cynorthwyo gyda ffordd newydd o fyw ar ôl y pandemig
- Chwarae rôl weithgar trwy fod yn bartner allweddol a chynorthwyo Cyngor Sir Fynwy i gyflenwi ei Strategaeth Digartrefedd a Chefnogaeth Tai
- Gweithredu deddfwriaeth y Ddeddf Rhentu Cartrefi
- Defnyddio cynlluniau cymdogaethau fel teclyn i adfywio cymunedau



# **Pobl** Wych

## Ein pobl yw ein hased gorau, boed yn staff, yn denantiaid neu'r bwrdd rheoli.

Diolch i ymroddiad gwych ein gweithlu a rôl anferth technoleg newydd, lleihawyd yr amharu ar gyflenwad ein gwasanaethau yn ystod y pandemig.

Galluogodd Technoleg i staff weithio o bell, gan fodloni galwadau dydd i ddydd ein busnes cynyddol, cryf a bywiog.

Mae teimlad o fod o werth a chael synnwyr o falchder yn rhywbeth yr ydym yn frwd yn ei gylch yn CTSF. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn sgiliau a datblygiad ein pobl, gan sicrhau bod ganddyn nhw gallu i yrru rhagoriaeth a gwireddu eu huchelgeisiau eu hunain.

Mae staff nad ydynt yn darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb wedi addasu'n rhwydd i ffordd newydd o weithio. Daeth cefnogi a chyfathrebu â'n tenantiaid o'u cartrefi eu hunain yn gyfarwydd. Mae hyn wedi cyflymu ein cynlluniau ac rydym wedi dysgu o'r profiadau yma, gwelwch ein targedau uchelgeisiol ar y dudalen nesaf.

## Taclo'r 'Bwlch mewn Cyflog rhwng y Rhywiau'

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi 'ffon fesur' i ni yr ydym yn ei defnyddio i fonitro cyfraddau cyflog rhwng cydweithwyr gwrywaidd a benywaidd. Ar gyfartaledd, mae menywod yn cael eu talu ychydig yn is oherwydd lefelau uchel o swyddi rhan amser. Mae gennym lefel uchel o ddynion mewn swyddi crefftwyr ac mae'r tîm yma ychydig yn llai na hanner y gweithlu.

**Beth ydym ni wedi gwneud i wella hyn yn CTSF?** Rydym yn herio rolau ystrydebol gwryw/benyw mewn swyddi rhan amser sydd ddim yn dechnegol, sy'n adlewyrchu busnesu tebyg. Mae'n bwysig bod ein hysbysebion swyddi ddim yn seiliedig ar rywedd hefyd.

# Cipolwg o'r **hyn yr ydym wedi cyflawni...**

Wedi Datblygu **3** Arweinydd i'r Dyfodol.

Wedi dechrau'r **rhaglen hyfforddi** i gefnogi'r amgylchedd digidol newydd.

Wedi addasu i **ffordd newydd o weithio i wella gwasanaethau** a chydbwysedd bywyd.

VERY GOOD TO WORK FOR 2022 cert.b.co.uk

Cael **achrediad 1* Cwmnïau Gorau,** 10fed Cwmni Rhanbarthol Gorau yng Nghymru a'r 12fed yn sector tai y DU.

Cyflogi **31** aelod newydd o staff ar draws y Grŵp.

# Anelu at RAGORIAETH...



## Cynlluniau'r Dyfodol...

### Lles a Datblygiad

- Gwella adnoddau i annog a chefnogi staff i edrych ar ôl eu hiechyd a lles a'u cydnerthedd
- Rhoi i staff gwybodaeth, sgiliau a gallu i ymwreiddio newid yn unol â strategaeth ddigidol CTSF
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd prentisiaethau (hyd at 5% o'r gweithlu)
- Penodi 3 arweinydd y dyfodol pellach
- Cael ail-achrediad ar gyfer Safonau Aur a Phlatinwm iechyd Corfforaethol erbyn 2023

### Engagement & Culture

- Adolygu trefniadau gwaith hybrid
- Cwblhau gweithrediadau o Arolwg Staff CTSF

Staff yng Nghlwb Rygbi Cil-y-coed





Paneli Solar yn y Dyfawden, Y Fenni



Pwmp gwres daear yn Llandeilo Gresynni



# Troi'n **Wyrdd**

Mae hyn yn uchel ar ein agenda ar gyfer 2022/23. Mae CTSF yn falch o gyflenwi cartref a gwasanaethau amgylchedd-gyfeillgar a chynaliadwy, tra'n gostwng ein hallyriadau CO2. Rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan, helpu Cymru i fodloni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o fewn y rhaglen Carbon Sero.

## Cipolwg o'r **hyn yr ydym wedi cyflawni...**

Gostwng hawliadau teithio ceir o **342,264 milltir** pellach.

Sicrhau gostyngiad o **46.31%** yn ein hallyriadau CO2.

Helpu tenantiaid i arbed **£19,801.42** trwy newid ynni, grantiau a gostyngiadau.

Cynnal achrediadau iechyd a diogelwch **ISO 14001, ISO 45001** a Green Dragon.

Gosodon ni dargedau i yrru perfformiad ynni a defnydd o dechnolegau arloesol yn ein cartrefi newydd. Trwy leihau'r defnydd o ynni, rydym yn taclo'r argyfwng costau byw, tra bod y defnydd o gadwyn cyflenwi lleol, ble'n bosibl yn gostwng ein hôl-troed carbon trwy adeiladwaith.

# Anelu at RAGORIAETH...



### Cynlluniau'r Dyfodol...

**Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd a phresennol a llwybr at garbon sero net...**

- Datblygu strategaeth ariannol i gyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru
- Datblygu polisi datgarboneiddio a dilyn wedyn gyda dadansoddiad opsiynau mewn ymateb i'r strategaeth carbon sero

**Lleihau carbon trwy ein ffyrdd o weithio...**

- Cyflwyno polisi ffyrdd newydd o weithio – gan gymryd mantais o atebion digidol i hwyluso gweithio o gartref
- Symud ein cronfa ceir tuag at rai trydan ac edrych ar bosibiliadau o gael fflyd hybrid
- Hyrwyddo cynllun aberth cyflog ar gyfer cerbydau trydan

**Taclo'r agenda newid yn yr hinsawdd...**

- Sicrhau cytundebau cychwynnol gyda phartneriaid perthnasol ar gyfer prosiect fferm wynt ac ystyried ein hopsiynau

**Darparu atebion arloesol ar gyfer tai...**

- Ymgymryd â diwydrwydd dyledus a dadansoddiad o opsiynau ar gyfer prosiect Dulliau Modern o Adeiladwaithanalysis for Modern Methods of Construction project
- Ymchwilio i arloesi newydd sy'n gysylltiedig â gostwng carbon mewn adeiladwaith

# Sut cawn ein **Rheoli**

## Bwrdd Ein Grŵp



Andy **Jones**
Cadeirydd CTSF
Cadeirydd CTSF



Tony **Deakin**
Is-gadeirydd CTSF, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Llywodraethu ac Archwilio ac Aelod o Fwrdd y Grŵp



Emma **Brute**
Cadeirydd Pwyllgor Llaid Cymunedol ac Aelod o Fwrdd y Grŵp



Colin **Lewis**
Cadeirydd Pwyllgor Gweithrediadau, Aelod o Fwrdd y Grŵp ac Aelod o Capsel



Alan **Soper**
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio, Aelod o Fwrdd y Grŵp ac Aelod o Capsel



Hannah **Vickers**
Cadeirydd Pwyllgor Datblygu ac Aelod o Fwrdd y Grŵp



John **Miller**
Aelod o Fwrdd y Grŵp ac o Fwrdd



Cael **Sendell-Price**
Aelod o Fwrdd y Grŵp



Dimitri **Batrouni**
Aelod o'r Bwrdd



Reg **Kilpatrick**
Aelod o'r Bwrdd



Mat **Cooling**
Aelod Annibynnol, Pwyllgor Archwilio

## Aelodau'r PLIC



Mary **Morgan**




Andrew **McNair**



Neville **Goward**



Tony **Crowhurst**



Bethan **Lancett**



Colin **Marsh**



Alistair **Clarke**

## Uwch Dîm Rheoli



John **Keegan**
Prif Weithredwr



Karen **Tarbox**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo



Gwyndaf **Tobias**
Cyfarwyddwr Adnoddau a Dirprwy Brif Weithredwr (Dechreuodd yng Ngorffennaf 2020)



Michele **Morgan**
Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau



Hwyl yng Nghlwb Rygbi Cil-y-coed Sesiwn drymio yn TogetherWorks, Cil-y-coed



Sesiwn drymio yn TogetherWorks, Cil-y-coed



# **Cymunedau** Cynhwysol

Yn CTSF, rydym yn falch o fod yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal.

Ein bwriad yw dathlu amrywiaeth a chynhwysiant trwy sicrhau ein bod yn cynrychioli'r gymdeithas gyfan, gan roi cyfleoedd teg ar gyfer datblygiad, cynnydd a chyfranogiad.

Rydym yn rhoi gwerth ar y buddion all ddod i'n sefydliad, ein tenantiaid a'r gymdeithas ehangach yn sgil amrywiaeth.

Mae CTSF wedi cytuno i ac wedi ymrwymo i Addewid 'Gwneud nid Dweud' Tai Pawb, gan daclo hiliaeth o fewn cymunedau Sir Fynwy. Mae hwn yn gynllun pum mlynedd ac rydym eisoes o flaen y targed ac wedi cyrraedd 10 o'r safonau, gyda 6 wedi eu cwblhau'n rhannol a 2 heb eu dechrau eto.

**Yn ein cynlluniau byddwn hefyd yn:**

- Cynnal digwyddiadau o gwmpas y sir i **annog perthnasau cymunedol** ac annog y rheiny mewn grwpiau cymunedol I gymryd mwy o ran.
- Sicrhau bod staff newydd yn ymgymryd â **unconscious bias training.**
- Cynnal **adolygiad llawn o'n polisi** a'n harferion **CACh**.
- Cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol ac annog **aelodau o gymunedau du a lleiafrifol ethnig i ymuno â grwpiau ymgynghorol.**
- Adolygu'n cynnig i fodloni gofynion y **Cynllun Iaith Gymraeg.**






Ein Tîm Cyllid arobryn



## Beth mae'r **Rheolydd Tai** yn disgwyl gennym...

Bod gennym ddull strategol ar gyfer sicrhau gwerth am arian ar draws holl feysydd y busnes.



Gwyndaf Tobias gyda gwobr Cyllid CTSF




# Arian

Rydym yn credu bod gennym, fel sefydliad a ariennir gan rent, grantiau cyhoeddus a benthyciadau, gyfrifoldeb i roi gwerth am bob punt yr ydym yn gwario.

Mae gwerth am arian bod amser wedi bod yn rhan ganolog o'n diwylliant. Mae ein dulliau'n cydbwyso anghenion ein cwsmeriaid â'n gwerth cymdeithasol gyda angen am dai yn y dyfodol. Mae'n golygu gwneud y pethau cywir a'u gwneud yn dda.

## Bodlonrwydd Tenantiaid 2021/22:

**88.7%** ohonoch yn credu bod eich rhent yn rhoi gwerth am arian.

**75.2%** yn credu bod taliadau yn gwasanaeth cynnig gwerth am arian.

Mae ein cyfrifon ariannol ar gyfer 2021/22 yn cael eu cadarnhau ar hyn o bryd gan ein Harchwilwyr felly nid ydynt yn hollol barod i'w rhannu. Bydd y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan erbyn canol Awst 2022.

Gwyliwch am ein Datganiad Gwerth am Arian diweddaraf a gyhoeddir ar y wefan yn ddiweddarach eleni.

MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

# Monmouthshire Housing Association


**0345 677 2277**

**customerservices@monmouthshirehousing.co.uk**

**www.monmouthshirehousing.co.uk**

**Monmouthshire Housing Association**
**Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park**
**Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ**

**facebook.com/Monmouthshire.Housing**

**twitter.com/mon_housing**


Sganiwch y Cod QR i fynd at wefan CTSF.

Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol ar **01495 761104** neu **corporateservices@monmouthshirehousing.co.uk** os ydych chi angen y ddogfen hon yn Saesneg neu unrhyw iaith arall, PDF, print bras, Braille neu mewn fformat clywedol.